IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD LLUN, 12 MEHEFIN 2023

Yn bressenol: Cynghorwyr Kaaba, Lancaster a/ac Sattar

1 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd Dan Cook ei fod yn gyn-breswylydd yn Stryd Bangor.  Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau ac aeth y gwrandawiad yn ei flaen.

2 : CAIS I AMRYWIO TRWYDDED SAFLE - SILURES, HEOL WELLFIELD

Yn bresennol:

Ymgeiswyr: John Andrew yn cael ei gynrychioli gan Matthew Phipps

Pobl Eraill â Diddordeb: Y Cynghorydd Peter Wong
Frances Dredge
Georgie Thompson (yn bresennol o bell)
Nic Finch (yn bresennol o bell)

Y Cais

Mae cais i amrywio Trwydded Safle wedi'i dderbyn gan Vladut Andrei Maxim yn ymwneud â Silures, 55 Heol Wellfield, Y Rhath, Caerdydd.

Mae’r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

(1) Disgrifiad o natur yr amrywiad (fel y nodir gan yr ymgeisydd):

> "Ein hamrywiad arfaethedig yw bod oriau agor y teras cefn yn newid o 10am-8pm i 10am-10:30pm.  Fel y perchennog a’r gweithredwr busnes newydd, gallaf gadarnhau y bydd y cysyniad newydd yn fwyty yn bennaf trwy ddiffiniad, sy'n golygu na fydd grwpiau o yfwyr mwyach ar y teras cefn o bosibl yn achosi aflonyddwch i'n cymdogion gerllaw, yn lle hynny bydd gwesteion yn bwyta wrth fwynhau diod gyda'u pryd bwyd. Dim ond y prif westeiwr a rheolwyr sy'n gallu dyrannu byrddau ar y teras cefn, mae hyn yn sicrhau bod rheolaeth a chyfrif gwesteion cyson ill dau  yn cael eu cynnal. Rydym yn sicr y bydd hyn yn cadw’r lefelau sŵn yn isel ac yn achosi dim aflonyddwch i'n cymdogion gerllaw."

Cafodd amodau'r drwydded bresennol a map safle eu cynnwys yn yr adroddiad.

Sylwadau’r Ymgeisydd

Cyflwynodd Mr Matthew Phipps y cais ar ran yr ymgeiswyr.   Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y cais i amrywio'r drwydded safle mewn 3 rhan: amrywio i'r oriau ar gyfer defnydd a ganiateir o'r ardal allanol; amrywio i'r oriau a ganiateir ar gyfer Nos Galan;

a newid enw. Cyfeiriwyd at y ddogfennaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd cyn yr Is-bwyllgor yn ymwneud â gwahoddiad i gyfarfod i aelodau'r ward a thrigolion lleol, cyflwyniad ar weithrediad y busnes a dogfen gyflwyno ysgrifenedig.

Dwedodd Mr Phipps fod y cais wedi codi yn dilyn newid perchnogaeth ar y safle. Nid oes gan yr ymgeisydd unrhyw gysylltiad â'r perchnogion blaenorol ac roedd gweithrediad y safle wedi newid i fod yn fusnes a arweinid gan fwyd gyda chynnig bwydlen bwyd cain. Ystyriwyd bod y newid mewn gweithrediad yn arwyddocaol gan ei fod yn rhoi awgrym o'r cwsmeriaid a'u hymddygiad. Nododd Mr Phipps y byddai'r ardal allanol yn darparu gwasanaeth bwrdd ar gyfer tua 30 o gwsmeriaid yn eistedd. Nid oedd cynnig i ddarparu cerddoriaeth ac mae'r ardal wedi ei gorchuddio gan ganopi.

Dwedwyd wrth yr Aelodau, yn dilyn trafodaethau rhwng yr ymgeisydd a swyddogion Iechyd yr Amgylchedd, y cytunwyd y byddai'r oriau y gwnaed cais amdanynt yn yr ardal allanol yn cael eu cwtogi o 2230 awr, fel y gwnaed cais yn wreiddiol, i 2100 awr. Mae'r ymgeisydd hefyd wedi cytuno i'r 3 amod ychwanegol canlynol a fwriadwyd i liniaru unrhyw niwsans cyhoeddus posibl:

1. Ar ôl 20:00 cyfyngir y defnydd o'r ardal allanol i gwsmeriaid bwyta yn unig.
2. Dim ond y GSD neu'r rheolwr ar ddyletswydd a gaiff ddyrannu cwsmeriaid i fyrddau allanol.
3. Ar ôl 20:00 mae'n rhaid i aelod o staff gynnal patrolau rheolaidd o'r ardal allanol a'r perimedr ar Bangor Street i fonitro lefelau sŵn gan gwsmeriaid. Rhaid cofnodi'r patrolau hyn a'u cadw am gyfnod o 3 mis (naill ai'n electronig neu ddogfen ffisegol). Dylai'r cofnod gynnwys yr amser, dyddiad patrolio, pwy a'i gwnaeth ac unrhyw sylwadau neu gamau a gymerwyd o ganlyniad.

Yn ogystal, atgoffwyd yr Is-bwyllgor nad oedd hanes gorfodi yn gysylltiedig â'r safle, a oedd wedi'i leoli o fewn ardal fasnachol/preswyl defnydd cymysg. Er bod yr ymgeisydd yn derbyn y farn gan Iechyd yr Amgylchedd bod rhywfaint o botensial tarfu, ni dderbyniwyd y byddai'r awr ychwanegol y gwnaed cais amdani yn niwsans cyhoeddus. Derbyniwyd pryderon trigolion hefyd ond roedd y newid yn gymedrol ac yn cydymffurfio â pholisi o ran y Datganiad Polisi Trwyddedu.

Atebodd Mr Phipps y sylwadau a gafwyd gan drigolion lleol, nifer ohonynt yn nodi pryderon y byddai caniatáu'r cais yn gosod cynsail ar gyfer ceisiadau yn y dyfodol. Atgoffwyd yr Aelodau nad yw hwn yn ystyriaeth gyfreithlon wrth benderfynu ar y cais. Mae'r Datganiad Polisi Trwyddedu a Chanllaw Adran 182 yn nodi y dylid penderfynu ar bob cais yn ôl ei rinweddau. Yn ogystal, ni fwriedir i'r cais greu gardd gwrw neu far coctel. Byddai gwasanaeth bwrdd yn cael ei ddarparu i oddeutu 30 o giniawyr am awr ychwanegol bob dydd.

Rhoddwyd gwybod i Aelodau fod yr ymgeisydd wedi ymgysylltu ac agor deialog gyda thrigolion a Chynghorwyr lleol. At hynny, byddai'r ymgeisydd yn cytuno i amod ar y drwydded sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgysylltiad o'r fath barhau, gyda rhwymedigaeth i wahodd preswylwyr i gwrdd â gweithredwyr y safle bob chwe mis.

Roedd Mr Phipps o'r farn ei bod yn arwyddocaol nad oedd unrhyw sylwadau eraill wedi eu derbyn gan yr awdurdodau cyfrifol.

Cyfeiriwyd at ddau ddigwyddiad a ddigwyddodd dros y penwythnos cyn y gwrandawiad. Honnwyd bod cymydog yn hwyr nos Wener yn curo ar y ffens gefn yn cwyno bod pobl yn achosi aflonyddwch yn yr ardal gefn. Gwahoddwyd y cymydog i mewn a dangoswyd yr ardal gefn a oedd yn wag ar y pryd. Awgrymodd Mr Phipps fod y tarfu wedi ei briodoli ar gam i'r safle. Nos Sadwrn cafwyd cwyn ynglŷn â symud casgenni. Dwedodd Mr Phipps mai'r safle cyfagos oedd yn gyfrifol am hyn.

Cafodd yr aelodau wybod bod y cais yn bwriadu bod yn barchus ac yn gymdogol. Mae'r Datganiad Polisi Trwyddedu a'r sylwadau a dderbyniwyd gan Iechyd yr Amgylchedd yn nodi y byddai 2100 o’r gloch yn taro cydbwysedd rhesymol.

Wrth ymateb i gwestiynau gan yr Is-bwyllgor dwedodd Mr Andrews nad oedd ardal ysmygu ar y safle. Hefyd, nid oedd mynediad cyhoeddus i gefn y safle. Ni fydd unrhyw berson yn yr ardal gefn y tu hwnt i 2100 o’r gloch am unrhyw reswm, heblaw am ddefnydd staff. Byddai'r ardal yn cael ei rheoli gan y GSD a’r rheolwr ar ddyletswydd. Bydd cwsmeriaid yn cael gwybod y bydd yr ardal gefn yn cau am 2100 o 2000 o’r gloch ymlaen, fel y maent ar hyn o bryd o 1900 o’r gloch. Bydd cwsmeriaid yn cael eu hebrwng y tu mewn. Dwedodd Mr Andrews y byddai'r sefyllfa'n cael ei hesbonio i'r holl gwsmeriaid sy'n defnyddio'r ardal gefn ac nad oedd hi'n wasanaeth cwsmeriaid da wneud fel arall.

<u>Sylwadau’r Bobl Eraill â Diddordeb</u>

Anerchodd y Cynghorydd Peter Wong yr Is-Bwyllgor. Dwedodd y Cynghorydd Wong, pan wnaeth y safle gais am newid ei amodau cynllunio o A1 i A3 roedd y defnydd o'r ardal allanol wedi'i gyfyngu i 2000 o’r gloch er mwyn diogelu amwynder lleol. Roedd y Cynghorydd Wong o'r farn y byddai unrhyw estyniad yn cynrychioli newid sylweddol a byddai'n gosod cynsail. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch effaith gronnol.

Cytunodd y Cynghorydd Wong fod angen taro cydbwysedd rhwng gweithrediad y busnes a'r effaith ar drigolion lleol ac roedd o'r farn bod 2000 o’r gloch yn briodol. Byddai unrhyw amrywiad i'r oriau yn newid y cydbwysedd a byddai'r Is-bwyllgor yn gwyrdoi penderfyniad cynllunio i bob pwrpas.

Dwedodd y Cynghorydd ei fod wedi cwrdd â'r ymgeiswyr a'u bod yn barchus ac yn ystyriol. Fodd bynnag, codwyd pryderon na fydd y rheolwyr presennol yn rheoli'r safle yn y dyfodol.

Gofynnodd y Cynghorydd Wong am wrthod y cais er mwyn diogelu trigolion lleol rhag niwsans cyhoeddus.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Wong ei fod wedi derbyn cwynion gan drigolion lleol ynglŷn â'r safle ers nifer o flynyddoedd.

Eglurodd Swyddog Cyfreithiol y Cyngor y safbwynt ynghylch yr amodau cynllunio presennol. Gwnaed cais a rhoddwyd caniatâd i amrywio'r amodau i ganiatáu defnyddio'r ardal allanol tan 2100 o’r gloch yn 2016.

Anerchodd Frances Dredge yr Is-bwyllgor ar ran nifer o drigolion lleol. Dwedodd Ms Dredge fod ganddi brofiad uniongyrchol o effaith gweithrediad y safle wedi byw yn yr ardal am sawl blwyddyn. Roedd Ms Dredge o'r farn mai'r ddadl allweddol ynghylch

niwsans cyhoeddus oedd y byddai ymestyn oriau yn cael effaith sylweddol ar drigolion lleol sydd eisoes yn wynebu tarfu.

Honnir nad yw pobl sy'n defnyddio'r ardal gefn yn mynd y tu mewn ar yr adegau gofynnol. Y penwythnos blaenorol cafodd pobl eu clywed yn yr ardal am 2220 o'r gloch. Mae angen i breswylwyr gau eu ffenestri yn ystod tywydd cynnes er mwyn lleihau effaith y sŵn ac arogleuon coginio.

Wrth benderfynu ar geisiadau blaenorol, roedd yr Is-bwyllgor Trwyddedu wedi ystyried bod 2000 o'r gloch yn briodol. Roedd Ms Dredge o'r farn y gallai 30 o bobl sy'n bwyta wneud cryn dipyn o sŵn ac y byddai'r lefle yn cynyddu wrth i alcohol gael ei yfed. Felly, yn ddiweddarach yn y nos roedd cwsmeriaid yn debygol o achosi hyd yn oed mwy o darfu. Mae ychwanegu canopi hefyd wedi arwain at fwy o sŵn gan fod cwsmeriaid bellach yn gallu defnyddio'r ardal ym mhob tywydd. Ystyriwyd hefyd nad yw'r canopi yn lliniaru effaith unrhyw darfu o ran sŵn canlyniadol.

Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch effeithiolrwydd staff sy'n patrolio'r ardal i asesu unrhyw niwsans sŵn, danfoniadau a chasgliadau biniau. Honnodd Ms Dredge fod troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cynyddu, er nad oedd modd priodoli hyn i'r safle yn unig.

Mynegwyd pryderon pellach ynghylch effaith defnyddio'r ardal gefn ar blant sy'n byw yn yr ardal, yn enwedig o ran amser gwely.

<u>I Grynhoi</u>

Gwahoddwyd pob parti i grynhoi.

Dwedodd Ms Dredge fod y safle wedi cael ei brynu gyda'r amodau trwyddedu presennol ac y byddai'r gweithredwyr yn gallu gwneud elw heb ymestyn y defnydd a ganiateir yn yr ardal gefn.

Wrth ymateb i bwyntiau a godwyd, atgoffodd Mr Phipps yr Aelodau bod y Cynghorydd Lleol wedi awgrymu y dylai'r Is-bwyllgor gael ei arwain gan y penderfyniad cynllunio i gyfyngu ar ddefnydd yr ardal allanol i 2000 o'r gloch er mwyn diogelu amwynder lleol. Roed dhi'n arwyddocaol felly, fod caniatâd cynllunio wedi ei roi tan 2100 o'r gloch.

Roedd Mr Phipps hefyd o'r farn bod pwyntiau a godwyd am osod cynsail yma yn anghyfreithlon a bod y cais yn sefyll ar ei rinweddau ei hun. Cyfeiriodd Mr Phipps at gynllun y safle a'r sylwadau a dderbyniwyd gan Iechyd yr Amgylchedd sy'n nodi nad oes unrhyw drigolion yn byw gerllaw neu ger y safle ac yr awgrymwyd bod agosrwydd trigolion lleol yn agosach nag ydyw mewn gwirionedd.

Derbyniwyd y gallai fod rhywfaint o botensial am sŵn ond ni fyddai hynny'n caniatáu gwrthod y cais ar ei ben. Mae amodau wedi'u rhoi ar waith a byddai mesurau'n cael eu cymryd i liniaru effaith unrhyw sŵn. Roedd y rhain yn rhesymol ac yn gytbwys.

Ni dderbyniwyd bod pobl yn defnyddio'r ardal gefn ar hyn o bryd y tu hwnt i oriau a ganiateir fel yr awgrymwyd gan breswylydd lleol. Byddai hyn yn torri'r amodau trwyddedu.

PENDERFYNWYD – Wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Pholisi Datganiad Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu, CYMERADWYODD yr is-bwyllgor y cais, yn amodol ar yr amodau canlynol:

1. Ar ôl 20:00 cyfyngir y defnydd o'r ardal allanol i gwsmeriaid bwyta yn unig.
2. Dim ond y GSD neu'r rheolwr ar ddyletswydd a gaiff ddyrannu cwsmeriaid i fyrddau allanol.
3. Ar ôl 20:00 mae'n rhaid i aelod o staff gynnal patrolau rheolaidd o'r ardal allanol a'r perimedr ar Bangor Street i fonitro lefelau sŵn gan gwsmeriaid. Rhaid cofnodi'r patrolau hyn a'u cadw am gyfnod o 3 mis (naill ai'n electronig neu ddogfen ffisegol). Dylai'r cofnod gynnwys yr amser, dyddiad patrolio, pwy a'i gwnaeth ac unrhyw sylwadau neu gamau a gymerwyd o ganlyniad. Mae'n ofynnol i'r safle hysbysu Cyngor Caerdydd os yw'r lefelau sŵn yn ormodol yn rheolaidd.
4. Ni fydd unrhyw seinyddion na cherddoriaeth yn cael eu defnyddio ar ôl 20:00 yn yr ardal allanol.

Bydd deiliad y drwydded eiddo yn gwahodd preswylwyr i gyfarfod bob 6 mis.

## 3 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim eitemau brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30 pm